Credwch mewn plant
Believe in children
Barnardo's Cymru

# Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Eithrio'r Rhai sy'n Gadael Gofal rhag Talu'r Dreth Gyngor

**19eg Rhagfyr 2018**

Menna.thomas@barnardos.org.uk

Uned Polisi ac Ymchwil Barnardo's Cymru
19-20 Heol Llundain
Castell-nedd
SA11 1LE
01639 620771

- **Mae'n bosib y bydd yr ymateb hwn yn cael ei wneud yn gyhoeddus**

- **Mae’r ymateb hwn yn cael ei gyflwyno ar ran Barnardo’s Cymru**

## 1. Gwybodaeth am Barnardo’s Cymru a chyd-destun eu gwaith

Mae Barnardos Cymru wedi bod yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru ers dros 100 mlynedd ac mae’n un o’r elusennau plant mwyaf yn y wlad. Ar hyn o bryd mae gennym 86 o wasanaethau amrywiol ledled Cymru, ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth â 16 o’r 22 awdurdod lleol.

Mae ein holl wasanaethau’n wahanol, ond mae pob un ohonynt yn credu bod pob plentyn a pherson ifanc yn haeddu’r dechrau gorau mewn bywyd – pwy bynnag ydyn nhw, beth bynnag maen nhw wedi’i wneud, a beth bynnag maen nhw wedi’i ddioddef. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o’n gwaith uniongyrchol gyda phlant i ymgyrchu dros bolisïau plant a gofal cymdeithasol gwell ac i hyrwyddo hawliau pob plentyn. Rydym yn credu, gyda’r math cywir o gymorth, cefnogaeth ymroddedig ac ychydig o ffydd, y gall hyd yn oed y plant mwyaf agored i niwed newid cyfeiriad eu bywyd. Ein nod yw sicrhau gwell canlyniadau llesiant ar gyfer mwy o blant drwy gynnig y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i wneud yn siŵr bod teuluoedd yn gryfach, bod plentyndod pawb yn fwy diogel, a bod y dyfodol yn fwy cadarnhaol.

**Cwestiynau**

1. Ydych chi’n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cefnogaeth ychwanegol i rai pobl ifanc sy’n gadael gofal drwy eu heithrio rhag talu’r dreth gyngor?

YDYM

| |
|---|
| Mae Barnardo's Cymru yn cefnogi eithrio’r holl bobl ifanc sy’n ‘gadael gofal’ fel y diffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, o dan y categorïau ‘plentyn cymwys’ a ‘phlentyn perthnasol’. |

2. Ni all person fod yn atebol am y dreth gyngor nes iddo gyrraedd 18 oed. Ydych chi'n cytuno â’r oedran hwn?

YDYM

Mae Barnardo’s yn cefnogi eithrio’r bobl ifanc sy'n gadael gofal rhag talu’r dreth gyngor ar ôl 18 oed.

3. Mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio'u pwerau disgresiwn i eithrio'r rhai sy'n gadael gofal rhag talu'r dreth gyngor hyd nes eu pen-blwydd yn 25 oed. Ydych chi'n cytuno y dylai'r eithriad arfaethedig ddod i ben ar ben-blwydd y sawl sy'n gadael gofal yn 25 oed?

YDYM

Mae’r bobl ifanc sy’n gadael gofal yn grŵp cymysg o ran eu profiadau bywyd, y gefnogaeth a’r ymyrraeth maent wedi’i dderbyn, eu galluoedd cysylltiedig a’u dawn i ymateb i’w hamgylchiadau. Bydd rhai yn fwy parod na’i gilydd ar gyfer gadael gofal a symud i fyw’n annibynnol. Rydyn ni’n gwybod mai’r materion allweddol sy’n wynebu’r bobl ifanc sy’n gadael gofal yw:

- Iechyd meddwl a lles emosiynol
- Ymgysylltu’n llwyddiannus ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.
- Cynnal perthnasoedd
- Pontio i fod yn annibynnol

Eto, ni fydd y ffactorau hyn yn effeithio ar yr holl bobl ifanc sy’n gadael gofal. Ar ôl cyfnod sefydlog mewn lleoliad maeth llwyddiannus, bydd rhai ohonynt yn profi heriau wrth bontio i fywyd annibynnol. Bydd eraill yn wynebu’r newid hwn heb gefnogaeth, gan ddioddef iechyd meddwl gwael, a heb gyrraedd y pwynt o allu ymgysylltu â’u hopsiynau addysg a chyflogaeth.

Er hynny, mae Barnardo’s Cymru yn llawn cefnogi’r syniad y dylai’r holl bobl ifanc sy’n gadael gofal gael eu heithrio rhag talu'r dreth gyngor nes iddynt gyrraedd 25 oed.

4. Mae 'rhai/sawl/pobl sy'n gadael gofal' yn cyfeirio at bobl ifanc sydd wedi derbyn gofal am gyfnod o 13 wythnos o leiaf ers iddynt gyrraedd 14 oed, ac yr oeddent mewn gofal ar eu pen-blwydd yn 16 oed. Dyma ddiffiniad a ddefnyddir gyda ffurfiau eraill o gymorth i'r rhai sy'n gadael gofal. Ydych chi'n derbyn bod hwn yn ddiffiniad addas?

YDYM

Ydym, rydym yn derbyn y diffiniad yma.

5. Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru eithrio’r rhai sy'n gadael gofal ac sy'n byw yng Nghymru ond a gafodd eu gofal mewn rhannau eraill o'r DU?

YDYM

Yn aml, bydd llawer iawn o’r plant sy'n derbyn gofal mewn rannau eraill o’r wlad yn cael eu rhoi mewn darpariaeth gofal preifat, preswyl, a gofal maeth yng Nghymru. Os bydd y bobl ifanc hyn yn gadael gofal pan fyddan nhw’n byw yng Nghymru, ni allwn weld unrhyw reswm pam na ddylai’r un gefnogaeth a chyfleoedd cael eu cynnig iddynt â'r bobl ifanc eraill sy’n gadael gofal yng Nghymru. Bydd yr heriau pontio i fyw’n annibynnol ac i fod yn oedolyn yr un fath i'r holl bobl ifanc hyn.

I’r rheini sy’n dewis aros yng Nghymru yn y tymor hir, mae sicrhau bod y bobl ifanc yn cael cymaint o gefnogaeth â phosib i’w helpu ar eu taith i fod yn oedolion sefydlog a gweithredol o esgor ar fanteision cymdeithasol ac economaidd ehangach.

6. A ddylai awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am bennu neu chwilio am dystiolaeth o statws gadael gofal unigolyn?

YDYM

Mae Barnardo’s Cymru yn cytuno y dylai’r awdurdod lleol chwilio am dystiolaeth ynghylch statws gadael gofal unigolyn pan fydd unrhyw amheuaeth am statws person ifanc.

7. Sut ydych chi'n credu y dylai awdurdodau lleol ymateb i ddyledion treth gyngor presennol sydd eisoes wedi'u cronni gan rai sy'n gadael gofal ac sy'n gymwys i gael eu heithrio?

Rydym yn gwybod y bydd rhai pobl ifanc sydd wedi gadael gofal ac sy’n byw mewn awdurdod lleol yng Nghymru wedi cofrestru i gael Credyd Cynhwysol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae ein gwasanaethau wedi sôn wrthym am yr effaith ar bobl ifanc o orfod aros chwe wythnos y taliad cyntaf gan Gredyd Cynhwysol. Nid oes

gan y bobl ifanc arian i dalu costau llety, bwyd a thrafnidiaeth. Mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cymryd camau i liniaru'r effaith yma. Er hyn nid yw'n glir pa mor gyson yw'r darpariaethau i liniaru'r effaith ledled Cymru.

Mae'r newidiadau i'r system les, yn benodol o ran yr arfer o ad-dalu am y mis blaenorol, a'r disgwyliadau y bydd pobl ifanc yn ymdopi â thalu eu costau tai, yn gofyn am lefel uchel o sgiliau rheoli arian y mae'r bobl ifanc sy'n gadael gofal yn llai tebygol o'u cael. Bydd hyn yn golygu eu bod yn fwy tebygol o fynd i ddyled, a bod dyledion eraill megis y dreth gyngor yn cronni.

Rydym yn credu mai'r ffordd fwyaf teg o fynd i'r afael â dyled treth gyngor yw dileu dyledion y bobl ifanc sydd wedi gadael gofal dros y flwyddyn ddiwethaf.

8. Yn eich barn chi, sut dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau bod pawb cymwys sy'n gadael gofal yn cael eu hadnabod, a sicrhau bod y mwyafrif ohonynt yn hawlio'r eithriad?

Dylai'r eithriad gael ei arwain yn bennaf drwy'r Timau Gadael Gofal statudol ym mhob awdurdod lleol. Dylai'r ymarferwyr sy'n gweithio mewn gwasanaethau digartrefedd ieuenctid, canolfannau cynghori lles, a gwasanaethau ieuenctid fod yn ymwybodol o'r eithriad fel eu bod yn gallu rhoi cyngor a gwybodaeth i'r bobl ifanc sy'n gadael gofal sydd dan eu goruchwyliaeth.

Gellir rhoi gwybodaeth a chyngor drwy'r sector addysg, gan gynnwys ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch.

9. Yn eich barn chi, a oes ystyriaethau ymarferol eraill y dylid mynd i'r afael â nhw mewn canllawiau?

10. Rhowch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych ar y cynigion.